**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 03-01 (min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 14 Chwefror 01 |
| **Amser** | 2.00-5.30pm |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd |
| Michael Trickey | FP2 |
| Ron Loveland | Cyfarwyddwr, yr Is-adran Cystadleuolrwydd a Seilwaith |
| Rob Holt | Yr Is-adran Cystadleuolrwydd a Seilwaith |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Neil Hortop | Yr Is-adran Cystadleuolrwydd a Seilwaith |
| Rachel Clancy | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Cyfranwyr Allanol**

| | |
|---|---|
| Graham Hawker | Prif Weithredwr WDA |
| Dr. Ruth Morgan | WDA |
| Gilbert Lloyd | KPMG |
| Bernadette Daly | KPMG |
| Iain Alexander | KPMG – ar secondiad i’r Pwyllgor Ymgynghorol ar Fusnes a’r Amgylchedd |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd dim.

**Eitem 1 - Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwahodd pobl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
2. Atgoffaodd yr Aelodau fod ymgynghori wedi dechrau ar yr Adolygiad Cymorth Busnes. Gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi ei rhoi i leihau'r cyfnod ymgynghori i wyth wythnos, ond cadarnhaodd y swyddogion fod 12 wythnos yn briodol gan y byddai wedyn yn cyd-ddigwydd ag ymgynghoriad y strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol.
3. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried pa gyfraniad pellach a oedd yn briodol ar y strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol. Cytunodd yr Aelodau eu bod yn dal i ddymuno cymryd rhan mewn trafodaethau â chyrff eraill, er mai dogfen y Weithrediaeth ydoedd yn y pen draw, ac yr oedd cyflwyniadau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gan rai sectorau, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Dolen Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, wedi eu cynllunio'n barod. Bydd y rhain yn porthi proses y strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol. Er bod y Gweinidog yn cynllunio cyfres o gyfarfodydd ymgynghori, yr oedd y Cadeirydd yn awyddus i'r pwyllgor gadw rôl yn y broses hon a gofynnodd i'r swyddogion ddarparu papur yn rhoi manylion penodol ar yr ymgyngoredigion fel y gallai'r Pwyllgor ystyried a fyddai ymgynghori pellach ganddynt yn briodol. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**

   Yn y drafodaeth cododd yr Aelodau'r pwyntiau ychwanegol a ganlyn ynghylch y strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol:

- Mae'n holl bwysig bod y Pwyllgor yn cymryd rhan yn yr ymgynghori a dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau rheolaidd am gynnydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Cafwyd awgrym am drafodaeth â rhywun o Is-adran Cyllid y Cynulliad i drafod rhinweddau dewis arall yn lle Fformiwla Barnett.

1. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn cais gan Aelod o'r Pwyllgor am gyfarfod ychwanegol i drafod materion sydd yn codi o gyhoeddiad Corus. Cadarnhaodd yr Aelod ei fod yn temlo bod yr egwyddor o gael cyfarfod ychwanegol wedi ei sefydlu ac yr oedd yn fodlon i hyn gael ei ystyried eto pan ddaw'r canlyniad terfynol yn fwy amlwg. Cynigiodd y Cadeirydd y gallai fod yn briodol cynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, pe bai'r gwaethaf yn digwydd, o wybod y bydd rhan sylweddol o unrhyw becyn cymorth yn ymwneud â mentrau addysg a hyfforddiant.

   Ychwanegodd un Aelod y dylai rhan o unrhyw becyn wrth gefn hefyd gynnwys gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth mewn perthynas â gwell gwasanaethau rheilffyrdd o'r cymoedd i Gaerdydd, adfer tir a materion amgylcheddol eraill. Yr oedd hyn yn tynnu sylw at yr angen i bwyllgorau eraill gymryd rhan ar y mater hwn ac awgrymodd yr Aelod y dylai hyn gael blaenoriaeth

efallai dros broses arferol y Pwyllgor.

**Eitem 2 – Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

1. Yn ychwanegol at ei adroddiad ysgrifenedig gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd ffigurau'r Farchnad Lafur a gyhoeddwyd y bore hwnnw yn dangos na fu newidiadau sylweddol. Bu gostyngiad o 900 yn nifer y di-waith a oedd yn lleihau'r ffigur canran i 4.4% o 4.5%. Bu ychydig o gynnydd yn nifer y swyddi gwag a oedd heb eu llenwi. Hefyd cyhoeddodd ffigur diwygiedig ar gyfer Rhagfyr 2000, a ddangosai ostyngiad yn nifer y di-waith o 400.

- Gan gyfeirio at y Cronfeydd Strwythurol, dywedodd fod mwy na £100 miliwn wedi ei ymrwymo. Yr oedd hyn oddeutu dwy ran o dair o ymrwymiadau'r flwyddyn gyntaf ar y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd a Chronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop a oedd yn gyson iawn â'r proffil.

- Ni allai fynd ymhellach na'r datganiad a wnaeth i'r Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf ynghylch Corus, o leiaf tan ar ôl y cyfarfod rhwng Corus a'r Undebau a oedd yn digwydd y prynhawn hwnnw. Er hynny, dymunai roi eglurhad ar ôl y cyhoeddiad am fenter EXi Telecoms a'r AEEU. Yr oedd y fenter hon ar waith ers yr haf diwethaf ac yr oedd yn ymwneud ag ymdrech EXi i ddod o hyd i ffynonellau newydd o weithwyr medrus. Rhoddodd y Gweinidog ar ddeall nad oedd hwn yn becyn a gytunwyd gan y Cynulliad ac yr oedd perygl ei fod yn codi gobeithion ofer. Mae'r swyddi a gyhoeddwyd yn ne ddwyrain Lloegr yn bennaf ac ni ddylid gweld hyn yn ateb i'r colledion swyddi yn y Diwydiant Dur.

1. Mewn trafodaeth bellach mynegodd rhai Aelodau bryder ynghylch cyhoeddiad EXi/AEEU a beirniadu rôl yr undeb wrth godi gobeithion y gweithwyr yn ddi-sail. Yr oedd y cyhoeddiad yn swnio'n bendant ynghylch swyddi yng Nghymru a holodd un Aelod ynghylch y cefndir. Cadarnhaodd y swyddogion na chawsant unrhyw drafodaethau â'r AEEU ac nid oedd y cyhoeddiad hwn yn ymwneud yn benodol â Corus. Ni wyddent am unrhyw gysylltiad gan yr Adran Masnach a Diwydiant neu'r Adran Addysg a Chyflogaeth o ran y cysylltiad â Corus.
2. Tra gobeithiai y byddai ateb cadarnhaol i fater Corus, mynegodd un Aelod bryder ynghylch cynlluniau wrth gefn a gofynnodd i'r Gweinidog beth oedd y sefyllfa bresennol. Ailddatganodd y Gweinidog na allai ychwanegu dim at y datganiad a wnaeth yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, yr oedd yn barod i gadarnhau bod trafodaethau'n mynd ymlaen. Gofynnodd un Aelod am fanylion pendant ynghylch ariannu ar ôl cyhoeddi unrhyw becyn a chadarnhaodd y Gweinidog y byddai gwybodaeth lawn ar gael ar yr adeg briodol.

3. Dywedodd un Aelod fod sïon bod Corus yn ceisio prynu tir yn nociau Casnewydd, yn ogystal â chwmni dur preifat lleol mewn ymgais i fewnforio slabiau dur ac, os yw hyn yn wir, y câi hynny effaith fwy byth ar economi Cymru. Ychwanegodd hefyd y byddai effeithiau amgylcheddol gweithredoedd Corus yn cynnig cyfle i Gymru ddangos sut yr ydym yn sefydlu prosiectau arloesol.

4. Croesawodd un Aelod y cyhoeddiad diweddar gan Ford a gofyn faint o arian y Cynulliad a ddarparwyd. Cadarnhaodd y swyddogion ei fod yn drefniant arferol i gyhoeddi swm y cymorth rhanbarthol dewisol ar ôl ymestyn am y rhan-daliad cyntaf.
5. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Gweinidog fod yr asiantaethau priodol yn gweithio gyda'i gilydd i geisio dod â swyddi newydd i ardaloedd y mae colledion swyddi diweddar yn Dairy Crest yn effeithio arnynt yn ogystal â gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyffredinol.
6. Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor y byddai Syr Brian Moffat yn bresennol yn y Pwyllgor Dethol ar Fasnach a Diwydiant heddiw ac yn y Pwyllgor Materion Cymreig ar 1 Mawrth 2001. Cadarnhaodd eu bod wedi awgrymu y gallem ddymuno anfon cyfarwyddyd neu restr o gwestiynau i'w cynnwys yn y cyfarfod olaf ac y byddai'n bosibl i Aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol, er mai yno fel aelod o'r cyhoedd y byddai. Hysbysodd y byddai'r Clerc yn drafftio rhai cwestiynau ac yn eu dosbarthu ymysg yr Aelodau i'w hystyried. Awgrymodd un Aelod y gallai fod yn bosibl i'r Pwyllgor Dethol wahodd un ai'r Cadeirydd neu'r Gweinidog i roi tystiolaeth yn y cyfarfod hwn. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod am yr awgrym cymwynasgar hwnnw ac, mewn trafodaeth bellach, penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor wahodd Syr Brian Moffat i gyfarfod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn y dyfodol. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**
7. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Gweinidog at y ffaith na chafwyd unrhyw benderfyniad byth ynghylch Partneriaethau Twristiaeth Cymru a'r ffaith bod bwriad i dynnu cyllid yn ôl, a allai arwain at ddiswyddiadau. Cadarnhaodd y Gweinidog mai ailstrwythuro yw hyn ac nad yw o reidrwydd yn golygu colli swyddi. Gobeithir y caiff staff mewn cwmnïau twristiaeth rhanbarthol eu cynnwys mewn swyddfeydd eraill. Dywedodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor gael adroddiad ar hyn ar gyfer ei drafodaeth â Bwrdd Croeso Cymru yn ei gyfarfod nesaf. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
8. Cododd Aelod arall fater y cais am gystadleuaeth Cwpan Golff Ryder yn 2009 a gofyn pa waith a wneir i wella seilwaith fel ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd, awyrennau, telathrebu, a.y.b. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cario hyn ymlaen i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd pan fyddai materion twristiaeth ar yr agenda. Cadarnhaodd Aelod fod y Pwyllgor Diwylliant yn edrych ar y mater hwn hefyd.
9. Dywedodd un Aelod y byddai'n fuddiol pe gallai'r Gweinidog gynnwys yn ei adroddiadau niferoedd y colledion ac enillion swyddi mewn sectorau penodol fel ei bod yn haws gweld symudiad swyddi rhwng sectorau. Rhoddodd y Gweinidog

wybod nad oedd y ffigurau misol wedi eu dadansoddi yn ôl sectorau ond y byddai'n ymchwilio ymhellach i hyn. Awgrymwyd bod hyn yn faes y dylai'r Bwrdd Polisi Economaidd roi sylw iddo os caiff ei sefydlu.

**Eitem 3 – Adolygiad Pum-mlynyddol y WDA**

1. Disgrifiodd y Cadeirydd y cefndir i'r adolygiad pum-mlynyddol o'r WDA yr oedd y Pwyllgor wedi gwneud sylwadau arno yn gynharach yn y broses. Dywedodd Michael Trickey fod yr adolygiad bron â'i gwblhau a bod adroddiad terfynol KPMG bron yn gyflawn. Byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei anfon at y Gweinidog ochr yn ochr â sylwadau oddi wrth y Pwyllgor. Yr oedd hyn yn debygol o arwain at gyfle am drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ac yn y pen draw at lunio cynllun gweithredu.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gilbert Lloyd o KPMG ac amlinellodd y meddwl y tu ôl i'w dadansoddiad a'u hargymhellion. Dywedodd eu bod wedi enwi nifer o faterion allweddol. Ynghylch cynllunio strategol a chorfforaethol, daethant i'r casgliad fod angen i'r Cynulliad Cenedlaethol barhau i roi gwedd eglurach ar ei rôl er mwyn cryfhau ei berthynas â'r WDA. Dywedodd y dylai'r Awdurdod yn ei dro gyflwyno dull ymgynghori cynhwysol er mwyn goleuo ei gynllunio. Yr oeddent wedi edrych ar strwythurau oddi mewn i'r WDA a chredent fod angen datblygu gweithdrefnau i ategu effeithiolrwydd y Bwrdd yn y dyfodol a rhoi gwedd eglurach ar y cydbwysedd rhwng y Rhanbarthau a'r Canol. Ynghylch cyfathrebu, credent fod cyfle i wneud hynny'n fwy effeithiol. Dywedodd fod nifer o faterion penodol a godwyd yn yr adroddiad hefyd a oedd yn llai pwysig. Dywedodd y byddai'n falch o drafod unrhyw un o'r rhain â'r Aelodau.

3. Yn y drafodaeth a ddilynodd gwnaethpwyd nifer o bwyntiau:

- Nododd yr Aelodau yr amwysedd oddi mewn i'r adroddiad yn y defnydd o'r term 'Cynulliad' i gyfeirio at y Llywodraeth yng Nghymru, aelodau etholedig a swyddogion.

- Yr oedd pryderon ynghylch y methiannau cyfathrebu a adroddwyd. Dywedodd Graham Hawker fod gan bob corff broblemau o'r math hwn i ryw raddau ond cydnabu fod angen iddynt wneud yn well. Dywedodd nad mater o weithdrefnau ffurfiol oedd hyn o reidrwydd ond yn syml o gael pobl i siarad â'i gilydd yn well.

- Croesawodd yr Aelodau yr awgrym o drosglwyddo Cyswllt Busnes i'r WDA, a oedd yn adleisio adolygiad busnes y pwyllgor. Dywedodd Graham Hawker ei fod yn teimlo ei bod

yn bwysig peidio â gweld hyn fel gweithgaredd ar wahân. Os oeddent i gael y budd mwyaf posibl, dylid ei integreiddio â gweddill gweithgareddau'r Awdurdod.

- Yr oedd y cydbwysedd rhwng y canol a'r rhanbarthau oddi mewn i'r Awdurdod yn holl bwysig. Cydnabu'r Aelodau ei fod yn rhywbeth a symudai yn ôl a blaen dros amser a phwysleisio ei bod yn bwysig cael hyn yn iawn. Yr oedd yr adolygiad hefyd yn argymell cadw cymorth rhanbarthol dewisol a MasnachCymru (Ryngwladol) oddi mewn i'r Cynulliad Cenedlaethol. Er bod hyn hefyd yn argymhelliad yn adroddiad y pwyllgor, mynegwyd y farn fod angen mwy o gyfiawnhad ar gyfer hynny.

- Yr oedd yn bwysig i'r WDA a'r Cynulliad Cenedlaethol gydweithio'n agos ond ni ddylid anghofio mai'r rheswm dros sefydlu'r Awdurdod oedd ei alluogi i weithredu'n wahanol. Ei bwrpas oedd bod yn gorff ar gyfer 'mentro doeth' ac yr oedd yn bwysig sicrhau bod modd i hynny barhau. Yr oedd yn bwysig gan yr Aelodau fod y WDA yn meddu ar yr hyblygrwydd i drosglwyddo tanwariant er mwyn hwyluso hynny.

- Nododd y Pwyllgor y sylw bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y berthynas rhwng y WDA a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Yr oeddent yn cydnabod bod angen datrys hynny ond dywedasant fod hynny'n anorfod i ryw raddau i bwyllgor cymharol newydd.

- Cytunwyd bod angen i'r Awdurdod weithio mewn partneriaeth glòs â chyrff eraill. Nodwyd nad oedd a wnelo hyn â sefydlu pwyllgorau ond â gweithio ar y cyd. Cydnabu Graham Hawker y gallent wneud yn well yn hyn o beth mewn rhai meysydd - er nad oedd yn credu eu bod yn llawer gwaeth na llawer o gyrff eraill o'u maint.

- Ategodd yr Aelodau bwyslais yr adroddiad ar symleiddio gweithrediad yr Awdurdod a nodi barn Graham Hawker bod angen symleiddio nifer y dirprwyaethau. Dywedodd fod llawer o'r rhain nad oeddent yn ymwneud mewn gwirionedd â chadw rheolaeth ar yr Awdurdod, a dderbyniai fel peth priodol, ond â gwirio yn unig.

- Teimlai rhai Aelodau nad oedd yr adroddiad yn ymdrin yn llawn â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch mesuryddion perfformiad, yn cynnwys yr angen i adlewyrchu effeithiau clir ac osgoi cyfrif ddwywaith y nifer y swyddi a grewyd gan wahanol gyrff a rhaglenni. Gobeithient y byddai'r testun terfynol yn ymdrin â hyn.

    1. Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei fod yn croesawu'n fawr y rôl bwysig a chwaraeir gan staff y WDA a dymunai ddiolch iddynt hwy a'r Prif Weithredwr am eu cyflawniadau. Nododd y byddai angen gohirio rhai argymhellion wrth weithredu'r adroddiad hyd nes cael canlyniad yr ymgynghori ar y strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol a'r Adolygiad Busnes ond yr oedd yn awyddus i symud mor gyflym â phosibl i gael cynllun gweithredu ar gyfer y gweddill. Ailddatganodd fod y WDA yn gangen allweddol o'r Cynulliad

Cenedlaethol.

2. Wrth grynhoi'r drafodaeth, nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn un cadarnhaol iawn a bod y rhan fwyaf o'r materion a godwyd heb fod yn annisgwyl i'r Pwyllgor ac yn faterion yr oedd y Prif Weithredwr yn ymwybodol ohonynt. Y cyfeiryddion allweddol ar gyfer y dyfodol oedd:

- gweithio effeithiol mewn partneriaeth;
- y WDA oedd y corff datblygu economaidd blaen yng Nghymru ac yr oedd disgwyl iddo weithio mewn partneriaeth gan hwyluso cyrff eraill ac nid tra-arglwyddiaetu arnynt;
- pwysigrwydd gwaith y WDA mewn perthynas â defnydd tir;
- yr angen am well targedau a dangosyddion perfformiad i hybu gweithredu.

**Eitem 4 Yr Ymddiriedolaeth Carbon.**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Ron Loveland a Rob Holt o'r Is-adran Cystadleuolrwydd a Seilwaith a chyflwynodd Iain Alexander sydd ar secondiad i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Fusnes a'r Amgylchedd. Hysbysodd yr Aelodau fod y papur yn amlinellu ac yn dynodi'r cynigion ar gyfer Ymddiriedolaeth Carbon i Gymru. Mae Atodiad 3 yn arbennig yn amlinellu'r defnydd posibl o arian yng Nghymru a theimlai mai ar y maes hwn y dylai'r Pwyllgor wneud sylwadau.

4.2 Wrth gyflwyno'r papur dywedodd y Gweinidog ei fod o wir ddifrif ynghylch ymrwymiadau'r DU yn Kyoto, a'r rôl sydd i Gymru wrth leihau gollyngiadau o nwyon t^y gwydr. Cydnabu hefyd y cyfleoedd busnes mawr a geir yn y fenter hon. Gofynnodd am sylwadau ar y gweithgareddau a restrwyd yn Atodiad 3, yn hytrach na dadl ar y Dreth Newid Hinsawdd, gan fod yr olaf yn rhywbeth na all y Cynulliad ei newid. Cadarnhaodd fod Ian McAllister wedi ei benodi'n Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Carbon, ac Ian Stephenson yn Is-gadeirydd.

3. Wrth ddarparu gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor, dywedodd Rob Holt fod camau bras wedi eu cymryd ers i'r Prif Weinidog gyhoeddi'r cynigion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Carbon yn Hydref 2000. Sicrhawyd cytundeb mewn egwyddor gan Ian Stephenson i sefydlu swyddfa i Gymru a chynllun darparu gwasanaeth i Gymru yn gyfnewid am gyllid gan y Cynulliad i'r Ymddiriedolaeth ar lefel y DU. Fodd bynnag, yr oedd llawer i'w wneud eto dros y chwe wythnos nesaf er mwyn sicrhau y byddai'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru ar waith ar 1 Ebrill 2001.

Cadarnhaodd fod cyllid o £33 miliwn ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Carbon ledled y DU. Yr oedd hyn yn cynnwys cyllid o £1.5 miliwn oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn y flwyddyn gyntaf a £1.75 miliwn yn y ddwy flynedd canlynol. Cedwir cyllideb y cynllun Lwfans Cyfalaf Uwch gan y Trysorlys, ond fe'i gweinyddir gan yr Ymddiriedolaeth. Un o weithgareddau allweddol Ymddiriedolaeth Carbon Cymru, yn y lle cyntaf, fydd ceisio dewisiadau ariannu eraill, gan gynnwys Rhaglenni Ewropeaidd fel Amcan 1, ac annog cwmnïau i ymgeisio am yr arian sydd ar gael o dan y cynllun Lwfans Cyfalaf Uwch.

4.4 Yn y drafodaeth gyffredinol nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol.

- Wrth sefydlu'r Ymddiriedolaeth Carbon yng Nghymru, mae'r Cynulliad wedi ceisio mabwysiadu'r dull "rheoli'n genedlaethol, darparu'n lleol" y llwyddwyd i'w sicrhau yn Rhaglen Arfer Gorau Effeithlonrwydd Ynni'r DU. Mae hyn yn golygu darparu menter i'r DU gyfan yn lleol, drwy gydlynydd i Gymru. Mae'r cydlynydd yn rhoi cyngor i gwmnïau ac yn eu cyfeirio at y corff iawn lle y bo angen.

- Yr oedd y cynigion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth wedi eu trafod â gwahanol bartïon cysylltiedig ac wedi eu croesawu'n gyffredinol. Y nod oedd gweithio gyda'r darparwyr gwasanaeth cysylltiedig ac un enghraifft o hynny oedd cael cytundeb i gydleoli cydlynydd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i Gymru yn yr un swyddfa â'r Ymddiriedolaeth Carbon.

- O'r £33 miliwn a oedd ar gael ledled y DU i sefydlu'r Ymddiriedolaeth Carbon, yr oedd £27 miliwn wedi mynd at Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a £6 miliwn at y gweinyddiaethau datganoledig.

- Sylwodd un Aelod fod gan Gymru gyfran uchel o gwmnïau gweithgynhyrchu a fyddai'n talu symiau sylweddol o dan y dreth a mwy na'r £1.5 miliwn yr oedd y Cynulliad yn ei dderbyn i'w ailgylchu i'r Ymddiriedolaeth. Dywedodd y swyddogion nad oedd ffigurau wedi eu cynhyrchu ynghylch costau'r dreth mewn ardaloedd penodol. Cadarnhaodd y swyddogion mai cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth Carbon fyddai annog cwmnïau yng Nghymru i gyrraedd eu cyfran hwy, neu fwy, o'r gronfa o £100 miliwn ar gyfer Lwfansau Cyfalaf Uwch. Dylai'r trefniadau darparu gwasanaeth lleol roi sylw i hynny hefyd. Nododd Iain Alexander, gan mai ar leihau gollyngiadau carbon y mae pwyslais yr Ymdiriedolaeth, y byddai'n rhoi o'i hamser a'i harian lle y gellir cael yr effaith fwyaf. Ar y dechrau, mae hyn yn debygol o fod yn y sector gweithgynhyrchu gan mwyaf a dylai hyn olygu y byddai gwerth y ddarpariaeth o wasanaeth yng Nghymru'n fwy na chyfraniad y Cynulliad o £1.5 miliwn.

- Dywedodd sawl Aelod nad yw cyfradd unffurf Yswiriant Gwladol o fantais i Gymru ond ei bod o fantais i ardaloedd sydd â chyfran uwch o gyflogaeth yn y diwydiannau darparu

gwasanaeth.

- Tynnodd un Aelod sylw hefyd at yr angen am gydlyniad rhwng yr holl ddarparwyr gwasanaethau yn y maes hwn, ac i'r cyrff dan sylw beidio â mynd ar draws ei gilydd wrth ddarparu fel a ddigwyddodd yn achos cymorth busnes. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi cymryd yr adolygiad Cymorth Busnes i ystyriaeth, ac y byddai'r Ymddiriedolaeth yn symleiddio gwasanaethau yn y maes hwn drwy ddod â nifer o ddarparwyr presennol at ei gilydd.

- Nododd un Aelod hefyd fod y rhaglen Arfer Gorau Effeithlonrwydd Ynni yn cael ei defnyddio'n dda gan y rhai a wyddai amdani a'r her i'r Ymddiriedolaeth Carbon yw cyrraedd cynulleidfa ehangach.

- Cadarnhawyd y gellir defnyddio arian yr Ymddiriedolaeth Carbon fel cyllid cyfatebol Amcan 1. Mae rhestr o wyth maes technoleg cymwys o dan y cynllun Lwfans Cyfalaf Uwch ac un o'r meysydd allweddol i'r Ymddiriedolaeth Carbon yw edrych ar Amcan 1 a meddwl yn ochrol er mwyn mwyhau'r defnydd o'r cyllid hwnnw.

3. Wrth grynhoi diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad a chynnig cefnogaeth gyffredinol y Pwyllgor i'r cynigion.

**Eitem 5 – Drafft o bolisi Cyfle Cyfartal yr Adran Ddatblygu Economaidd**

1. Oherwydd cyfyngiadau amser cynigiodd y Cadeirydd y dylid gadael yr eitem hon er mwyn derbyn sylwadau arni drwy e-bost a'i thrafod ar ddyddiad yn y dyfodol. Gofynnodd i'r Aelodau anfon unrhyw sylwadau ar y polisi at David Pritchard a gofyn iddo yntau adrodd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar weithrediad y polisi gyda hyn. **[Cam Gweithredu: David Pritchard, Aelodau'r Pwyllgor]**

**Eitem 6 – Adroddiad Amcan 1 a Chyllid Cyfatebol**

1. Agorodd Christine Chapman y drafodaeth drwy fynd drwy bwyntiau allweddol yr Adroddiad a ddilynodd gyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglen ar 5 Chwefror.
2. Bu rhywfaint o drafodaeth ar y Gr^wp Polisi a benodwyd yn ddiweddar a mynegwyd pryderon ynghylch a oedd cydbwysedd gwleidyddol priodol arno. Nodwyd nad oedd yr is-bwyllgor hwn wedi ei sefydlu ar batrwm gwleidyddol. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu y byddai'r egwyddorion sydd yn berthnasol i'r Gwasanaeth Sifil yn briodol yn y sefyllfa hon ac os oedd gan yr Aelodau unrhyw bryderon ynghylch didueddrwydd yr aelodau y dylent ysgrifennu ato.

3. Adroddodd y swyddogion ar y lefelau gwariant cyfredol a ddaethai'n £46.844 miliwn hyd ddiwedd Ionawr ar y tri chynllun, y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd, Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop ac Offeryn Ariannol y Cyfarwyddyd Pysgodfeydd. Rhagwelwyd y byddai'r gwariant erbyn diwedd y flwyddyn yn £75 miliwn yn erbyn cyllideb o £78.5 miliwn. Fodd bynnag, yr oedd y rhagolwg yn cynnwys ffigur o £21 miliwn ar gyfer Cyllid Cymru a fyddai'n disgyn yn y flwyddyn ganlynol os na dderbynnid cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn pryd.
4. Holodd yr Aelodau hefyd ynghylch argaeledd cymorth technegol a'r gyllideb cymorth technegol fach a oedd wedi ei dyrannu. Byddai'n achosi syndod i'r swyddogion pe na bai awdurdodau lleol wedi ymgeisio am ei ddefnyddio.
5. Bu trafodaeth fyr am staffio yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a oedd tua 60-70 yn brin o'i nifer lawn - er na ddisgwylid iddi gyrraedd hynny nes byddai'r lefelau gweithgaredd yn codi ymhellach. Nodwyd bod y lefelau hyn yn uwch o lawer nag a ragwelwyd yn wreiddiol a bod hyn yn ganlyniad i gynllun a gâi ei arwain gan y galw.
6. Bu rhywfaint o drafodaeth ar gyllid cyfatebol a mynegwyd pryder y gallai fod ar gael ar draul rhaglenni eraill. Gallai hyn ddigwydd ar lefel genedlaethol drwy'r Cynulliad, ac ar lefel leol drwy gyllidebau awdurdodau lleol. Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn fater y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor ddod yn ôl ato. Dywedodd ei bod wedi trafod paratoi papur er gwybodaeth ar hyn gyda'r Gweinidog Cyllid ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**

**Eitem 7 – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2001**

1. Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**